


Plygeiniau'r Gogledd-Ddwyrain gan Dr Goronwy Wynne, Licswm (dyfyniadau allan o erthygl ym mhapur bro 'Y Glannau' 2020)



Yn ein hardal ni, yr enwocaf yw Plygain y Lloc, a'r gred yw ei bod wedi ei chynnal am chwech ar fore'r Nadolig ers tua 1840. Mae'n debyg mai oddeutu 1946 oedd y tro cyntaf i mi fod yno...

...Cychwyn o Licswm am 5.30, cyrraedd y capel a rhyfeddu fod cymaint o bobl o gwmpas, a phawb yn cyfarch ei gilydd: "Gwyliau Llawen"...y capel bach yn orlawn...ac yna'r Llywydd yn dweud y geiriau hollbwysig "Mae'r Plygain yn awr yn agored."

Munud o dawelwch...pawb yn disgwyl! Dau neu dri o'r plant yn canu carol fel angylion bach, ac yna'r carolwyr yn dod ymlaen yn eu tro. Pedwarawd o Fostyn, deuawd o Ffynnongroew, unawd o Garmel, wythawd o Drelawnyd, pedwarawd arall o Gaerwys, ac felly ymlaen. Un ferch ifanc yn cyflwyno adroddiad, a charolwyr eraill o Waenysgor, Dinbych, Cilcain, Treffynnon, Bae Colwyn, Chwitffordd, Mynydd y Fflint ac amryw o unigolion a theuluoedd lleol o ardal Lloc, a ninnau yn ein tro o Licswm...a'r garol *Seren Bethlehem* i orffen.

Rydw i wedi bod yn y Plygain yn weddol gyson ar hyd y blynyddoedd, ond be sy'n aros yn y cof o'r dyddiau cynnar? Canu pedwar llais ardderchog ar emynau'r Nadolig: *Wele Cawsom*, *Odlau Tyner Engyl*, *Ymhlith Holl Ryfeddodau'r Nef*, a *Peraidd Ganodd*. Clywed yr hen garolau Cymraeg, rhai'n gyfarwydd ac ambell un am y tro cyntaf: *Wele Gwawriodd*, *Ar Gyfer Heddiw'r Bore*, *Carol y Blwch* a *Henffych Iti*...Gwyn Jones yn arwain Parti'r Plygain a'i frawd Len Jones yn eistedd ar risiau'r pulpud (pob sedd arall yn llawn) gan nodi enwau'r partïon yn ei lyfr bach (lle mae'r llyfr hwnnw heddiw tybed?)...

...Efallai nad yw pawb yn sylweddoli fod cymaint o blygeiniau eraill wedi digwydd yn ardal Sir Fflint dros y blynyddoedd. Dyma'r rhai y gwn i amdanynt: Cilcain (yn 1532, yn ôl Thomas Pennant, pan aeth to yr eglwys ar dân!); yr Hob yn 1770; ac yn ddiweddarach Trelawnyd, Y Waen (Gwernafield), Cymau, Rhuddlan, Maesglas (1887); capeli Sardis a Salem yn yr Hendre; Yr Wyddgrug (darllenwch 'Gwen Tomos' gan Daniel Owen); Cwm; ac yn y blynyddoedd diweddar mae plygeiniau newydd wedi codi yng Nghilcain, Nercwys, Yr Wyddgrug a Chadeirlan Llanelwy.